Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

HCS30
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20/05/2014

Annwyl Syr/Fadam,

**Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i roi sylw ar yr ymgynghoriad hwn. Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser, fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd, bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn, gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol neu Lywodraeth Cymru yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Un o amcanion y Bil uchod yw rhoi terfyn ar yr arfer o ddefnyddio carafannau gwyliau fel cartrefi preswyl parhaol. Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol o bryderon am yr arfer hwn. Derbyniodd ohebiaeth ym mis Ebrill 2013 am gais i estyn cyfnod agor safle carafannau gwyliau yng Ngwynedd. Roedd y cais yn destun pryder oherwydd yr effaith bosibl ar y Gymraeg yn lleol pe caniateid agor y safle carafannau am flwyddyn gyfan. Mynegwyd yr un pryder ym mis Mai 2014 am bedwar cais newydd i ganiatáu agor safleoedd carafannau yng Ngwynedd am flwyddyn gyfan.

Bwriad y Bil yw ei gwneud yn ofynnol i berchnogion carafannau a meddianwyr hirdymor ddangos bod eu prif breswylfa mewn man arall, a rhoi pwerau i awdurdodau lleol ddelio â meddianwyr carafannau sy'n methu'r prawf hwn. Hoffai'r Comisiynydd dderbyn gwybodaeth bellach am y modd y diffinir 'prif breswylfa'.

Nodir yn y Bil y bydd rhaid i feddianwyr gydymffurfio â phrawf preswylio drwy ddangos tystiolaeth nad ydynt yn defnyddio carafán wyliau fel prif breswylfa. Gosodir cyfrifoldeb ar berchennog pob safle carafannau gwyliau i hysbysu'r awdurdod lleol os cred bod meddiannydd wedi methu'r prawf preswylio. Os cred yr awdurdod bod meddiannydd wedi methu'r prawf, rhaid iddo roi hysbysiad methu prawf preswylio i'r meddiannydd a chaiff roi hysbysiad cosb yn ogystal.

Amlygwyd pryderon yng Ngwynedd, nid yn unig am agor safle carafannau am flwyddyn gyfan, ond am allu'r awdurdod lleol i arolygu'r sefyllfa yn effeithiol. Yn sgil y Bil arfaethedig, a fydd modd sicrhau nad yw unigolion yn byw mewn carafán am ran fwyaf y flwyddyn gan ddefnyddio cyfeiriad eiddo arall at ddibenion y prawf preswylio?

Cyflwynir y sylw hwn fel tystiolaeth i gynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth fynd ati i ddiwygio'r gyfraith mewn maes o ddiddordeb i gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Diolch am y cyfle i ddarparu sylwadau ar eich ymgynghoriad. Byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod y mater gyda chi ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg